

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD IONAWR 2024
8 IONAWR 2024 19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

1. Presennol

Cenwyn ap Tomos, Elin Jones, Glyn Griffiths, Bethan Gritten, Siân Cwper, June Jones

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Ymddiheuriadau

Dim

3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

4. Cadarnhau Cofnodion Misol 6 Tachwedd 2023

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 6 Tachwedd 2023.

Cynnig: Elin Jones

Eilio: Glyn Griffiths

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Goryrru Llanfrothen a Gosod Cyflymdra 20 m.y.a.

Disgwylir canlyniadau'r mesur cyflymder yn Llanfrothen gna Gyngor Gwynedd.

Gan nad ydy hi'n glir i gerbydau sydd yn dod o Groesor am yr A4085, ger Lodge Brondanw, fod y cyflymder ar yr A4085 yn 20 mya, fe gytunwyd hefyd y dylid gofyn am arwydd yn dangos 20mya ger y Lodge, ac am arwydd ffordd gul neu debyg, er mwyn gwneud hi'n glir fod y ffordd i Groesor yn gul ac yn anaddas ar gyfer cerbydau mawr.

Yn dilyn y ddamwain drasig ar yr A4085 ddiwedd 2023, cytunodd y Cynghorydd June Jones i holi ymhellach pa waith fydd Cyngor Gwynedd yn ei wneud, er mwyn sicrhau diogelwch yn gyffredinol ar yr A4085.

5.2 Mynwent Tan lan

Mae Dylan Edwards wedi trwsio'r piler ar y chwith ar y ffordd i mewn i'r fynwent.

Mae hefyd wedi trwsio'r twll ble roedd defaid yn dod i mewn i'r fynwent drwy'r clawdd ac wedi gwneud hynny yn ddi-dâl.

Gwnaethpwyd 6 toriad i brif ran y fynwent yn ystod 2023, a 2 doriad i weddill y fynwent.

5.3 13 Garreg Frech

Cafwyd ymateb siomedig gan Gyngor Gwynedd. Gofynnwyd a oedd cais am Orchymyn Arwystl ar 13 Garreg Frech wedi ei wneud gan adran dreth cyngor Cyngor Gwynedd. Yr ymateb oedd nad oedd hi'n bosibl dweud am resymau diogelu data.

Wedi i'r Clerc ofyn am ddiweddariad ym mis Rhagfyr ar ba gamau y byddai Cyngor Gwynedd yn eu cymryd er mwyn defnyddio'r ddeddfwriaeth eiddo gwag i adfeddiannu'r eiddo, mae'n glir nad oes yna unrhyw weithrediad wedi bod ar y mater yma. Mae hyn yn siomedig, yn enwedig o gofio fod yr Adran Dai wedi penodi Swyddog Tai Gwag, a'r adran wedi dweud eu bod wedi sefydlu grŵp gweithredol er mwyn mynd i'r afael ag eiddo problemus fel y rhain, ond serch hynny, nid oes unrhyw weithrediad wedi bod ar y mater.

Cytunodd y Cyngorydd June Jones i holi am ddiweddariad gan yr adran Tai ac Eiddo yng Nghyngor Gwynedd, ac i son wrthynt fod Artro yn eiddo gwag yn Garreg ers rhai blynyddoedd.

5.4 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen

Cafwyd mesuriadau ar gyfer y 4 opsiwn gan y pensaer ac amcan bris. Mae mesuriadau'r 4 tua 3x2m a'r amcan bris yw tua £10,000.

Cafwyd trafodaeth a chytundeb cyffredinol y gallai'r maint o 3x2 fod yn rhy fawr.

Dyluniodd y Cyngorydd Siân Cwper fodel posibl arall. Roedd y model yma yn cynnwys to gwyrdd efo planhigion byw arno, ffrâm bren ac ochrau sinc.

Gobeithir cyfarfod efo Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd er mwyn trafod agweddau gwyrdd yr arosfan fws yn fuan.

Tynnodd y Cyngorydd Bethan Gritten lun o'r model a bydd yn ei ddanfon at y pensaer am sylwadau.

Bu i'r Cyngorydd Nia Povey ymchwilio efo'r Gofrestrfa Dir perchnogaeth y tir dan sylw, ond nid yw'r tir wedi ei gofrestru, Bydd angen sicrhau pwy sydd berchen y tir, a gwneud caniatâd cynllunio cyn bwrw ymlaen efo'r mater.

5.5 Llwybr Llanfrothen - Penrhyndeudraeth

Cafwyd diweddariad prisiau gan Gyngor Gwynedd, fydd yn adlewyrchu'r prisiau yn nhermau heddiw o ran adeiladu'r llwybr.

Bydd yn costio rhwng tua £1,568,000 - £2,345,000.

Fydd Cyngor Gwynedd ddim yn medru ei ariannu yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

Er bod Cyngor Gwynedd yn cael cyfle i wneud cais yn flynyddol am grant i adeiladu llwybrau teithio llesol, mae'n annhebygol y byddai ardaloedd gwledig yn llwyddo, a byddai'r swm sydd ar gael yn isel. Ni fyddai cynllun o'r math yma yn cael blaenoriaeth.

Cytunodd y Cynghorydd Nia Povey ofyn i'r Ramblers os medrent feddwl am lwybrau tebyg sydd mewn defnydd mewn llefydd eraill.

Trafodwyd ystyried gwneud llwybr llai uchelgeisiol, e.e. llwybr syml heb darmac yn mynd drwy'r cae. Byddai hyn yn ffordd o sicrhau diogelwch cerddwyr drwy eu cael oddi ar y ffordd.

5.6 Gordyfiant ger Llwyn Onn

Mae'r Clerc wedi atgoffa Cyngor Gwynedd i edrych ar y tyfiant ar ochr y ffordd ger Llwyn Onn niferoedd o weithiau. Mae tyfiant bambw yn gorchuddio'r pyst adlewyrchu diogelwch.

Cytunodd y Cynghorydd June Jones i atgoffa Cyngor Gwynedd am yr angen i ddelio a'r mater yma.

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Tachwedd 2023 £239.72

TWE £59.80

6.2 Cyflog Clerc Rhagfyr 2023 £239.72

TWE £59.80

6.3 Gwasanaethau Tir a Choed, chwistrellu Clymog Siapan – Anfoneb 503, Rhagfyr 17 2023, £120.00

6.4 yuenergy 8 Tachwedd 2023 £18.38

6.5 yuenergy 8 Rhagfyr 2023 £18.16

6.6 Anfoneb Dylan Edwards am dorri mynwent Tan Lan 2023 £1,800.00

6.7 Anfoneb Dylan Edwards am ail godi piler mynwent Tan Lan £1,000.00

6.8 Padiâu diffibrilwyr Llanfrothen x3 a batri diffribliwr, Anfoneb Defib Store 22/12/2023 £442.80

6.9 Balans yn y prif gyfrif 2 Ionawr 2024 £21,744.74

6.10 Balans yn y cyfrif cadw 2 Ionawr 2024 £21,478.93

7. Gohebiaeth

Dim

8. Cynllunio

Dim

9. Materion Eraill

9.1 Cyflog y Clerc

Cytunwyd ym mis Mawrth 2023 i godi oriau'r Clerc o 26 i 32 awr y mis. Yn ogystal cafwyd dyfarniad cyflog gan NALC yn Nhachwedd 2023, wedi ei ôl ddyddio i Ebrill 2023, ac felly bydd cyflog y Clerc yn codi yn unol â hynny.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Bethan Gritten

9.2 Praesept 2024/25

Trafodwyd y costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol i ddod, a'r rhain yn cynnwys cyflog ychwanegol y Clerc, costau'r fynwent, gwariant ar ddiffribrilwyr a chysgodfan bws.

Cytunwyd i godi'r praesept £1,000 i £11,300

Cynnig Glyn Griffiths

Eilio; Siân Cwper

9.3 Diffribilwyr Ardal Llanfrothen

Yn dilyn asesiad gan gynrychiolydd o'r GIG, daethpwyd i'r casgliad nad oedd y diffribilwr yng Nghroesor yn addas i'w bwrpas, nac yn debygol o weithio mewn argyfwng. Mae dŵr wedi bod yn cronni ynddo, nid yw'r gwresogydd mewnol yn gweithio, ac mae'n disgyn i ffwrdd o'r wal ble y'i gosodwyd.

Mae'r diffribilwyr yn Garreg a Rhyd hefyd angen sylw. Mae'n debyg nad ydyn nhw wedi cael diweddariad meddalwedd, ond hefyd mae'r ces sydd yn eu gwarchod yn dechrau dirywio, ac amheuaeth os ydy'r gwresogyddion yn y ces yn gweithio'n effeithlon.

Yn ogystal, roedd eu padiau a'u batris wedi dod i ben ac fe benderfynwyd adnewyddu'r rhain fel bod y diffribilwyr yn gweithio.

Cytunwyd i fwrw ymlaen efo gosod diffribilwr newydd yng Nghroesor, a gwneud hynny ar bolyn ar ochr y ffordd. Bydd y trydan wedyn cael ei gyflenwi gan Gyngor Gwynedd am gost o tua £50 y flwyddyn. Mae'r trefniant yma yn cael ei argymhell fel un gwell na'r un presennol ble mae'r diffribilwr ar eiddo preifat.

Wedi i'r diffribilwr gael ei osod yng Nghroesor, bydd ystyriaeth yn cael ei roi ar gyfer adnewyddu'r diffribiliwyr sydd yn Garreg a Rhyd.

Bydd cost diffribilwr newydd tua £1,500, yn cynnwys y diffribliwr, ces, batris a pads. Bydd cost batris ar gyfer unrhyw ddifribilwr newydd yn sylweddol rhatach na chost batris y rhai presennol.

9.4 Tîmoedd Tacluso

Mae Tîm Tacluso Cyngor Gwynedd ar gael i wneud gwaith tacluso yn y gymuned.

Cytunwyd i ofyn iddyn nhw glirio'r dail a thacluso'r ffordd sydd yn arwain at fynwent Tan Lan.

9.5 Cofeb Rhyfel Garreg

Trafodwyd y ffaith nad oedd y Gofeb Rhyfel yn Garreg yn cael ei hedrych ar ei hôl bellach, ers i'r gwirfoddolwr oedd yn paentio'r giât ac ati roi'r gorau iddi.

Cytunodd y Cynghorydd Bethan Gritten i daro golwg ar y gofeb a'i thacluso.

Credir mai Stad Brondanw sydd yn gyfrifol am ei chynnal a'i chadw, ac felly gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu atynt ar y mater yma.

Bydd y Cynghorydd June Jones yn holi'r Comisiwn Beddau Rhyfel am gyngor o ran tacluso a gwneud yr enwau ar y gofeb yn gliriach.

9.6 Cyfarfod Ymddiriedolwyr Brondanw

Bu i'r Cynghorwyr Nia Povey a Glyn Griffiths gyfarfod efo Ymddiriedolwyr Brondanw ganol Rhagfyr.

Mae elw yn cael ei wneud o'r Cynllun Hydro ar hyn o bryd, a'r tariff bwydo i mewn wedi cynyddu. Cafwyd addewid gan yr Ymddiriedolwyr i wneud cyfraniad ariannol i'r cyngor cymuned, ond doedd dim addewid pendant o ran y swm na'r amserlen ar gyfer gwneud taliad.

Eglurwyd nad oedd hi'n bosibl cytuno ar ganran taliad ar hyn o bryd gan nad oedd y ffigurau ariannol mewn lle. Fodd bynnag, bu i'r Ymddiriedolwyr ddweud y byddent yn fodlon gwneud cyfraniad ariannol am yr arosfan fws eleni, ac o flwyddyn nesaf ymlaen, gyfraniad o ganran elw'r Cynllun Hydro.

Dyddiad y cyfarfod nesaf - 4 Mawrth 2024 am 7 yr hwyr